

GRUFFUDD ap MAREDUDD ap DAFYDD (fl. 1352-82), bardd o Fôn

Enw: Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd

Maes gweithgaredd: Barddoniaeth

Awdur: William John Davies

y ceir ei holl waith yn 'Llyfr Coch Hergest,' col. 1198-1220 a 1313-36. Digwydd ei enw fel perchen rhan o dair tref welyog yn Nhalybolion, sef Aberalaw, Carneddawr, a Dronwy, a bernir ei fod yn hanu o linach Trahaearn Goch o Lôn.

Ar wahân i'r ychydig gerddi maswedd ymranna'r ddwy fil a hanner o linellau o'i waith dan dri thestun, sef canu duwiol, mawl a marwnad, a chanu serch. Ond odid nad yw ei awdlau i'r Grog o Gaer, i Dduw ac i Fair, sydd yn gyfrodedd o gywreinwaith, yn enghreifftiau teg o'i ymlyniad wrth y traddodiad barddol mewn testun a mynegiant. Aelodau un teulu a foliennir ac a farwnedir ganddo, sef [Tudur Fychan](#) (bu farw 1367), Howel fab Gronwy, Gronwy Fychan (bu farw 1382), a [Syr Howel y Fwyall](#) (bu farw tua 1381) a phurion y gweddai ei alw'n fardd teulu [Tuduriaid](#) Penmynydd. Nid annhebygol mai ef yw awdur yr awdl anghyffredin yn gwahodd [Owain Lawgoch](#) i adennill ei dreftadaeth. Coron ei waith yw'r cerddi serch. Mewn un gerdd cyrch gartref y rhai yn Nhref Lywarch ar 'frondoryf varch,' ac anoga ef i frysio. Y mae nodweddion diffuantrwydd yn ei awdl farwnad odidog i Wenhwyfar o Fôn, a hawdd credu mai ei brofiad gwirioneddol a geir yn y geiriau 'gwydyn oedd ym hir vwy gwedy.'

Mesurau traddodiadol yr awdl oedd cyfrwng ei fynegiant, ond diamau ei fod yn un o'r rhai cynharaf i wneud defnydd o englynion unodl union a phroest ar ddechrau awdl. Serch iddo gydoesi â beirdd cynnar cyfnod y cywydd, ymgadwodd rhag defnyddio'r mesur hwnnw. Nodwedd arbennig ei waith yw ceinder medrus synhwyrol wedi ei weithio'n gelfydd i batrwm mor gywrain.

Awdur

William John Davies

Ffynonellau

Bulletin of the Board of Celtic Studies, i, 123-33

Registrum Vulgariter Nuncupatum. 'The Record of Caernarvon ...' (1838), 58-9

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 396

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 38, 41, 50-1, 94, 106

The Cheshire Sheaf, being local gleanings, historical & antiquarian, 3rd series, xxii, 37, 39, 45

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [6904959](#)

Wikidata: [Q13128790](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

